

Beth sy'n gweithio i gefnogi gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl (o ofal sylfaenol i gleifion mewnol) ar gyfer grwpiau lleiafrifol er mwyn lleihau anghydraddoldebau? Crynodeb tystiolaeth gyflym.

Rhif Adroddiad RES0024 (Mawrth 2024)

CRYNODEB GWEITHREDOL

Beth yw Crynodeb Tystiolaeth Gyflym?

Mae ein crynodebau tystiolaeth gyflym (RES) wedi'u cynllunio i ddarparu cynnyrch ymateb cyflym. Maen nhw'n seiliedig ar chwiliad cyfyngedig o adnoddau allweddol ac asesiadau o grynodedau. Rhoddir blaenoriaeth i astudiaethau sy'n cynrychioli synthesis tystiolaeth gadarn. Ni chynhelir unrhyw arfarniad o ansawdd na synthesis tystiolaeth, a dylid dehongli'r crynodeb yn ofalus.

Mae'r adroddiad hwn yn gysylltiedig ag adolygiad cyflym â ffocws dilynol, i'w gyhoeddi yn Haf 2024, ar effeithiolrwydd ymyriadau i wella mynediad teg neu gyffredinol at wasanaethau iechyd meddwl gan grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Ar gyfer pwy mae'r Crynodeb Tystiolaeth Gyflym hwn?

Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Iechyd Meddwl a Grwpiau Bregus (Polisi).

Cefndir / Nod Crynodeb Tystiolaeth Gyflym

Amcangyfrifir y bydd un o bob pedwar o bobl yn profi iechyd meddwl gwael¹ yn ystod eu hoes. Fodd bynnag, mae grwpiau lleiafrifoedd ethnig¹, ffoaduriaid a cheiswyr lloches¹ yn profi mwy o rwystrau wrth geisio cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl ac maen nhw'n profi canlyniadau iechyd meddwl gwaeth na'r rhai o grwpiau lleiafrifoedd nad ydynt yn ethnig. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai ymyriadau sy'n gwella mynediad ac ymgysylltiad â gwasanaethau iechyd meddwl helpu i leihau gwahaniaethau sy'n effeithio ar grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Felly, nod y crynodeb tystiolaeth gyflym hwn oedd archwilio'r llenyddiaeth ar yr hyn sy'n gweithio i gefnogi gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid a cheiswyr lloches i leihau anghydraddoldebau. Roedd yr adolygiad yn cynnwys ymyriadau a ddatblygwyd neu a aseswyd i wella tegwch¹ o ran mynediad, ymgysylltu, defnyddio neu ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl.

Canlyniadau

Adolygiad o'r sylfaen dystiolaeth

- Cyhoeddwyd y llenyddiaeth sydd wedi'i chynnwys rhwng 2006 a 2023.

Maint y sylfaen dystiolaeth

- Nododd chwiliadau cronfa ddata lyfryddol adolygiadau systematig¹ (n = 19), adolygiadau cwmpasu¹ (n = 7), adolygiad mapio¹ (n = 1), adolygiadau naratif¹ (n = 3), trosolwg o adolygiadau¹ (n = 2), adolygiad cwmpasu o adolygiadau (n = 1) a phrotocolau adolygu systematig (n = 4).
- Nododd y rhanddeiliaid adroddiadau sefydliadol (n = 4), adolygiad cyflym¹ (n = 1), adolygiad cwmpasu (n = 1), ac adolygiad systematig (n = 1).

Canfyddiadau allweddol

- Crynhowyd y llenyddiaeth a nodwyd o dan y categorïau canlynol: Mynediad a llwybrau at ofal iechyd meddwl (wedi'i grynhoi ar wahân ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig; Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr; a ffoaduriaid a cheiswyr lloches); Hybu iechyd meddwl, atal a thrin cyflyrau iechyd meddwl gan gynnwys addasiadau diwylliannol i ymyriadau seicolegol; Ymddygiad ceisio cymorth; Ymgysylltu â thriniaeth; a chychwyn, cymryd rhan neu barhau gyda thriniaeth.
- Mae **cyfoeth o dystiolaeth adolyguo** bob rhan o'r DU ac yn rhyngwladol, ar y pynciau canlynol: **rhwystrau a hwyluswyr i gael mynediad at ofal** iechyd meddwl ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid a cheiswyr lloches; **hybu iechyd meddwl, atal a thrin** cyflyrau iechyd meddwl (gan gynnwys cychwyn, cymryd rhan neu barhau gyda thriniaeth) ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid a cheiswyr lloches; ac **addasiadau** diwylliannol i ymyriadau seicolegol p'un a yw hynny ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig sy'n byw yng ngwledydd y Gorllewin neu boblogaethau mwyaf sy'n byw mewn gwledydd nad ydynt yn y Gorllewin.
- Er bod tystiolaeth ar gael ar wella mynediad gofal iechyd meddwl a phrofiad grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, yn aml nid oes gan y rhain gydran werthuso ac maen nhw'n adrodd ar eu canfyddiadau fel awgrymiadau/ argymhellion ar gyfer ymyriadau. Mae'r argymhellion mwyaf cyffredin i **wella tegwch gofal iechyd meddwl yn cynnwys**: addasiadau iaith a diwylliannol; addysg gweithwyr gofal iechyd proffesiynol; cyflogi staff ethnig amrywiol; gwell darpariaeth gwybodaeth; cydweithio rhwng gwahanol sectorau; hwyluso llwybrau atgyfeirio a gwella llwybrau; gwasanaethau arbenigol ar gyfer grwpiau lleiafrifol a gwasanaethau allgymorth; addysg a datblygu sgiliau cleifion; cynnwys cymunedau.
- Gall ymyriadau sydd wedi'u haddasu'n ddiwylliannol (naill ai hybu iechyd meddwl, atal neu driniaeth) arwain at ganlyniadau cadarnhaol, gan gynnwys gwelliant yn nifrifoldeb symptomau, ymddygiadau, hunan-effeithiolrwydd a lles, er bod diffyg consensws o ran pa gydrannau i addasiadau sy'n gweithio ar gyfer grwpiau diwylliannol. **Nid yw'n glir p'un a yw addasiadau diwylliannol yn arwain at ganlyniadau gwell o gymharu ag ymyriadau heb eu haddasu**, ac mae angen treialon rheoledig ar hap o ansawdd uchel wedi'u cynllunio'n dda.

Goblygiadau Ymchwil a Bylchau Tystiolaeth

- Mae tystiolaeth adolygu gyfyngedig ynghylch effeithiolrwydd ymyriadau i wella mynediad at ofal iechyd meddwl ar draws grwpiau lleiafrifoedd ethnig.
- Mae tystiolaeth adolygu ynghylch ymyriadau i gefnogi mynediad ffoaduriaid a cheiswyr lloches at ofal iechyd sylfaenol neu glinigau arbenigol (er enghraifft beichiogrwydd ac ôl-enedigol) ar gael, ond ni ellir echdynnu'r canfyddiadau sy'n ymwneud â gofal iechyd meddwl.

Ymwadiad: Safbwyntiau'r awduron sy'n cael eu mynegi yn y cyhoeddiad hwn, nid Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o reidrwydd. Mae Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau